# Helo pawb!

Gobeithio eich bod i gyd yn aros adref ac yn cadw'n ddiogel. 'Dwi'n edrych ymlaen yn fawr iawn at gael dod 'nôl atoch i'r ysgol unwaith fydd pethau yn well!

Yn y cyfamser mwynhewch fod adref!

Pam lai?

'Dwi yn gweithio o'r gegin yma yng Nghaernarfon a byddaf yn mynd i'r ardd bob hyn a hyn i rhoi moetha a moron i Beti'r Bwni. Mae Beti wrth ei bodd!

'Dwi hefyd yn parhau i gadw'n heini drwy fynd allan ar fy meic unwaith y dydd gan sicrhau fy mod yn rhoi pellter o 2 fedr i bawb dwi'n pasio.

Tybed beth ydach chi'n neud? Beth am daro mewn i'r wefan yma o bryd i'w gilydd er mwyn dysgu mwy am fod yn ddiogel wrth y ffordd ag i ymgymryd ag ambell i sialens byddaf yn ei osod. Bob hyn a hyn gobeithiaf anfon clip fideo i chi neu nodyn gyda thasg. Bosib y gwelwch aelodau eraill o'r Tim Beicio yma hefyd. Mae yna lot fawr ohonoch yn adnabod Mrs Ashworth, John a Martina.

Yn y cyfamser cadwch yn ddiogel a welai chi yn fuan!

**Ceri**
**(Uned Diogewlch y Ffyrdd)**

**Gallwch anfon e-bost at unrhyw gwestiynau, sylwadau neu luniau at Diogelwchyffyrdd@ynysmon.gov.uk**